TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Llawr 5, Tŷ South Gate
Stryd Wood
Caerdydd CF10 1EW
029 2167 3434
cyswllt@trc.llyw.cymru
trc.llyw.cymru

5th Floor, South Gate House
Wood Street
Cardiff CF10 1EW
029 2167 3434
contact@tfw.gov.wales
tfw.gov.wales

Russell George AC
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Caerdydd
CF99 1NA

Mehefin 2019

Annwyl Mr George

Diolch am rannu adroddiad Pwyllgor ESS, Datblygu Trafnidiaeth Cymru yn y Dyfodol, gyda ni. Rydym yn croesawu'r adroddiad ac yn diolch i'r pwyllgor am ei waith, a gofynnwyd i mi ymateb i Argymhellion 1 i 3 a 7 i 13.

Argymhellion

Argymhelliad 1. Rhaid i Trafnidiaeth Cymru symud yn gyflym i sefydlu grŵp cynghori ffurfiol i'w alluogi i ymgysylltu â chyrff rhanddeiliaid a gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd o gyfrifoldebau a swyddogaethau Trafnidiaeth Cymru, a'r llinellau atebolrwydd ar gyfer yr holl swyddogaethau trafnidiaeth amrywiol yng Nghymru.

Bydd TrC yn creu panel cynghori i ddarparu adborth ar gyflwyniad ei wasanaethau. Bydd y panel cynghori yn cynnwys is-baneli a fydd yn rhoi cyfleoedd clir i leisiau cwsmeriaid, rhanddeiliaid a charfanau diddordeb gynghori TrC ynghylch ei weithgareddau. Caiff hyn ei reoli mewn ffordd agored a thryloyw i ddarparu gweledegd cyhoeddus i'r allbynnau o'r strwythur hwn.

Argymhelliad 2. Rhaid i Trafnidiaeth Cymru ddangos ymrwymiad cryfach i ddiwallu anghenion cwsmeriaid a gwella profiad teithwyr: rhaid iddo ddefnyddio ystod eang o fecanweithiau, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, i ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid a theithwyr. Dylai Trafnidiaeth Cymru ddatblygu a chyhoeddi cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu cynhwysfawr sy'n nodi ei ymagwedd ac yn nodi'n glir pa safonau y gall rhanddeiliaid a'r cyhoedd eu disgwyl. Dylai'r cynllun ddangos yn glir sut y bydd Trafnidiaeth Cymru yn ystyried barn grwpiau defnyddwyr a rhanddeiliaid allweddol.

Mae Trafnidiaeth Cymru yn eiddo i **Lywodraeth Cymru**
Transport for Wales is owned by the **Welsh Government**

Cyfeiriad cofrestredig y swyddfa: Canolfan QED, Prif Heol, Ystâd Ddiwydiannol Trefforest, Pontypridd CF37 5YR.
Trafnidiaeth Cymru rhif cwmni: 09476013. Cwmni cyfyngedig drwy warrant. Cofrestrwyd yng Nghymru.
Registered office address: QED Centre, Main Avenue, Treforest Industrial Estate, Pontypridd CF37 5YR.
Transport for Wales company number: 09476013. A company limited by guarantee. Registered in Wales.

Yn unol ag argymhelliad 1, bydd TrC yn creu panel cynghori i ddarparu adborth ar gyflawni ei wasanaethau. Ategir hyn gan adeiladwaith cynghori ehangach a chynllun a fydd yn darparu llwybrau clir a hygyrch ar gyfer ymgysylltu gan ddefnyddwyr, rhanddeiliaid a grwpiau â budd. Ym mis Mai, cyhoeddodd TrC ei weledigaeth ar gyfer Rheilffyrdd Cymunedol sy'n amlinellu sut y bydd yn gweithio gyda chymunedau i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu hadlewyrchu yng ngweithgareddau TrC.

Fel rhan o'r adeiladwaith cynghori, bydd TrC hefyd yn ystyried strwythurau ymgysylltu cyfredol a sut y gellir eu hymgorffori i sicrhau bod cyfleoedd clir a thryloyw ar gyfer ymgysylltu ar draws y cylch gwaith cyfrifoldebau presennol. Bydd TrC hefyd yn cyhoeddi crynodeb lefel uchel o'i gynllun cyfathrebu ar gyfer 2019/2020.

Argymhelliad 3. Rhaid i Trafnidiaeth Cymru gyhoeddi siart sefydliad ar gyfer y sefydliad cyfan – nid y bwrdd yn unig - gyda manylion am swyddogaethau a rolau yn y sefydliad, a dylai'r wybodaeth hon gael ei diweddaru yn rheolaidd (bob mis i ddechrau) wrth i'r sefydliad dyfu. Dylai ddangos a yw staff yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol neu fel ymgynghorwyr, a rhoi digon o fanylion am natur y gwaith arbenigol y mae'n ei wneud.

Mae TrC yn credu mewn bod mor agored a thryloyw ag sy'n ymarferol bosibl. Ar hyn o bryd, rydym yn cyhoeddi enwau a chyfrifoldebau ein tîm uwch, y meysydd dan eu gofal yn ogystal â'u bywgraffiadau. Credwn fod hyn yn gymesur ag arfer da, fel sydd yn amlwg oddi wrth yr Awdurdodau Trafnidiaeth eraill

Transport for London
https://tfl.gov.uk/corporate/about-tfl/how-we-work/corporate-governance/board-members

Transport Scotland
https://www.transport.gov.scot/about/senior-management-team/

Transport for the North
https://transportforthenorth.com/leadership-team/

Rydym yn cydnabod ac yn deall y gofyniad i ddangos datblygiad ein tîm ochr yn ochr â'r galw llai am ymgynghorwyr i gefnogi ein swyddogaethau craidd. Ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol a blynyddoedd ariannol i ddod, rydym yn bwriadu cyhoeddi contractau gwerth dros £25,000 a ddyfarnwyd ar ein gwefan yn chwarterol. Byddwn hefyd yn ymchwilio i'r ffordd orau o ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol ar ein gwefan sy'n cydnabod y bydd ein datblygiad parhaus yn elwa o gefnogaeth ehangach, boed hynny gan weithwyr ar secondiad, lleoliadau cydweithredol ffurfiol gan sefydliadau sector cyhoeddus eraill neu gan ymgynghorwyr.

Argymhelliad 7. Fel rhan o'i adroddiadau cyhoeddus rheolaidd ar ei weithgareddau, dylai Trafnidiaeth Cymru ddarparu tystiolaeth glir o sut y mae'n cydymffurfio ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae TrC ar hyn o bryd yn alinio ei waith ar Ddatblygu Cynaliadwy ac mae'n paratoi Cynllun Datblygu Cynaliadwy yn seiliedig ar ofynion rhwymedigaethau cytundebol y gweithredwr a phartner datblygu (ODP). Rydym yn cyfarfod yn rheolaidd â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac mae'r ddogfen hon wedi'i mapio yn erbyn y Nodau Llesiant, a bydd yn cael ei hadrodd yn fewnol i'r Bwrdd ym mis Ebrill 2020 a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ym mis Mehefin 2020.

Rydym wedi datblygu adnodd mesur ar y cyd â Gwerth Cymru a fydd yn cael ei ddefnyddio i fesur manteision cymunedol ein prosiectau, ac mae hefyd yn gallu darparu allbynnau data sy'n cyd-fynd â'r Nodau Llesiant.

Bydd gan ein prosiectau eu Cynlluniau Datblygu Cynaliadwy eu hunain, a chaiff y rhain eu mapio yn erbyn Cynlluniau Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer yr ardaloedd lle maent yn cael eu darparu. Fe'u mesurir gan ddefnyddio'r adnodd mesur y cyfeirir ato uchod.

Argymhelliad 8. Dylai Trafnidiaeth Cymru a/neu Lywodraeth Cymru roi mwy o fanylion i'r Pwyllgor am y cynlluniau a'r amserlen ar gyfer datblygu tocynnau integredig a theithio clyfar i Gymru.

Lansiodd TrC gynllun peilot tocynnau clyfar ar gyfer deiliaid tocynnau tymor ar 1 Ebrill 2019, a hynny ar ddau lwybr i ddechrau; Caerdydd i Benarth ac Amwythig i Wrecsam.

Yn dilyn gwerthusiad ym mis Mehefin, bydd y cynllun peilot yn cael ei gyflwyno i fwy o lwybrau a chynhyrchion yn ddiweddarach yn y flwyddyn, gyda'r amcan o symud y rhan fwyaf o docynnau tymor i gardiau clyfar.

Mae gwerthusiad yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ar gyfer tocynnau integredig, talu wrth fynd a thocynnau ar sail cyfrifon ar gyfer ardaloedd eraill yng Nghymru. Mae rhagor o fanylion am ein rhwymedigaethau yn y maes hwn i'w gweld yma; https://trc.llyw.cymru/cy/prosiectau/gwasanaeth-rheilffyrdd-cymru-ar-gororau

---

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod strwythur Bwrdd Trafnidiaeth Cymru yn cael ei gryfhau'n sylweddol a'i fod yn cymharu'n ffafriol â chyfansoddiad a setiau sgiliau cyrff gweithredol trafnidiaeth eraill. Dylai'r gynrychiolaeth ar Fwrdd Trafnidiaeth Cymru, a'r ffordd y mae'n gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau, gael ei dylunio i ymgorffori dull partneriaeth gymdeithasol cryf ac agored, ac ymrwymiad i amrywiaeth o fewn y sefydliad. Dylai Trafnidiaeth Cymru hefyd gyhoeddi cofrestr gyflawn o fuddiannau holl aelodau'r Bwrdd a'i gyfarwyddwyr ar ei wefan.

Dros y chwe mis diwethaf, mae TrC wedi parhau i gryfhau aelodaeth a strwythur ei Fwrdd trwy benodi Cadeirydd parhaol a chyfarwyddwr anweithredol annibynnol sy'n gyfrifol am archwilio, risg a chyllid. Mae gan y Bwrdd bedwar is-bwyllgor –

- *Archwilio a Risg,*
- *Cwsmeriaid a Chyfathrebu,*
- *Iechyd, Diogelwch a Llesiant, a*
- *Pobl.*

Mae pob is-bwyllgor yn cyfarfod o leiaf bob chwarter ac mae cylch gorchwyl cytunedig wedi'i gyhoeddi ar wefan TrC. Cadeirir pob is-bwyllgor gan gyfarwyddwr anweithredol TrC, gyda chyfarwyddwr anweithredol ychwanegol yn bresennol fel aelod o'r pwyllgor.

Mae TrC yn gyflogwr teg a chynhwysol ac mae'n awyddus i fwrw ymlaen â phenodiad cynyddol o sicrhau cynrychiolydd Undeb Llafur enwebedig ar y Bwrdd. Cysylltodd TrC â TUC Cymru ar 4 Mawrth 2019 i ddechrau ymgysylltu ar gytuno ar broses o wneud apwyntiad, a chynhaliwyd cyfarfod â hwy ar 7 Mehefin.

Mae TrC hefyd ar ddechrau proses o benodi cyfarwyddwr anweithredol sydd â phrofiad a gwybodaeth addas o'r sector trafnidiaeth. Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod amrywiaeth, ym mhob ffurf, yn allweddol i sicrhau bod gwahanol bersbectifau yn cael eu cyflwyno i'w brosesau penderfynu. Mae'r Bwrdd yn credu bod rhywedd yn agwedd bwysig wrth greu'r Bwrdd gorau o ran cydbwysedd a chyfansoddiad, ac ar hyn o bryd mae'r bwrdd yn cynnwys pedair menyw a thri dyn.

Mae cofrestr o fuddiannau aelodau'r Bwrdd yn cael ei gyhoeddi ar wefan TrC ac yn cael ei ddiweddaru'n chwarterol.

Argymhelliad 10. Dylid cyhoeddi canlyniadau dienw gweithgareddau Trafnidiaeth Cymru i asesu boddhad staff ar ei wefan.

Yn ddiweddar, fe wnaethom ni ddefnyddio ein cynhadledd gyntaf i gynnal arolwg teimlo'r pwls ar sut mae ein cydweithwyr yn teimlo tuag at eu cyflogaeth a TrC, a sut y

gallwn wella. Rydym yn falch o rannu'r prif ddata (atodedig) a byddwn yn eu cyhoeddi ar ein gwefan.

Roedd yr adborth ar y cyfan yn gadarnhaol, er bod ein ffocws ar welliant parhaus wrth i ni ddatblygu a thyfu. Rydym yn cydnabod bod ymgysylltu â gweithwyr yn rhan annatod o gadw staff, gan ddatblygu amgylchedd lle gall pobl fod ar eu gorau a dod yn gyflogwr lle mae'r holl staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cymell. I'r perwyl hwn, mae eu hadborth yn bwysig, ac mae'r canlyniadau yn hynod o ddefnyddiol i ni.

Byddem yn hoffi meithrin ymagwedd dryloyw iawn o ran sut yr ydym yn symud ymlaen, a byddwn yn cynnal trafodaeth a dadansoddiad o'r pwnc hwn ar lefel Bwrdd. Ein bwriad yw cynnal grwpiau ffocws gweithwyr gyda thrawstoriad o staff o bob tîm a bandiau i gael adborth gonest ac agored a fydd yn ein galluogi i ddehongli'r data yn briodol. Gall y trafodaethau ffocws penodol yma lywio ein cynllun gweithredu arolwg a'n galluogi i gyfathrebu ynghylch sut y byddwn yn gweithredu ar eu hadborth.

Argymhelliad 11. Dylai Trafnidiaeth Cymru ymrwymo i gytundeb partneriaeth gymdeithasol â'r holl undebau perthnasol cyn gynted â phosibl i ddangos ei ymrwymiad i arfer gorau.

Mae undebau llafur yn rhan bwysig o ddatblygu ein sefydliad, a gyda hynny mewn golwg, mae TrC wedi dewis cydnabod pob undeb yn y sector er mwyn sicrhau ein gallu i weithio'n effeithiol mewn partneriaeth gymdeithasol wrth i ni dyfu. Mae TrC wedi cadarnhau gyda Llywodraeth Cymru ei fod yn awyddus i weithio gyda'r holl bartneriaid a ffurfioli unrhyw gytundebau cyn gynted â phosibl. Mae TrC yn cydnabod ac yn cydweithio â'r undebau llafur canlynol:

- *ASLEF*
- *FDA*
- *PCS*
- *Prospect*
- *RMT*
- *TSSA*
- *Unite*

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Trafnidiaeth Cymru yn gyfrifol am sicrhau bod ei gynllun adnoddau dynol yn canolbwyntio'n strategol ar ddatblygu sgiliau a mabwysiadu rhaglen brentisiaeth fel rhan o'i swyddogaethau yn y dyfodol.

Mae TrC wedi ymrwymo i ymagwedd gadarn tuag at y rhaglen 'Gyrfaoedd Cynnar '. Bydd hyn yn cynnwys Prentisiaethau, Graddedigion a lleoliadau myfyrwyr gyda ffocws arbennig ar gymunedau anodd eu cyrraedd, codi dyheadau a chofleidio gwahaniaeth. Rydym eisoes yn siarad â Llywodraeth Cymru, Prifysgolion, Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB) a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i ddeall y cyfle a datblygu ein hymagwedd.

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod polisi ac arferion caffael Trafnidiaeth Cymru yn cyd-fynd yn llwyr â chefnogi etifeddiaeth o sgiliau a hyfforddiant wrth gyflawni ei swyddogaethau.

Mae Polisi Caffael TrC yn ymgorffori egwyddorion Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys pwysigrwydd ei gyflenwyr yn darparu gweithlu sydd wedi'i hyfforddi'n dda.

Mae'r contractau sydd ganddo ar waith ar hyn o bryd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cynlluniau hyfforddi prentisiaid a graddedigion yn ogystal â monitro effaith hyn ar fusnesau bach a chanolig lleol a grwpiau dan anfantais.

Mae'r Cytundeb Grant yn cynnwys darpariaethau adrodd ar gyfer:

Cwmnïau lleol, Busnesau Bach a Chanolig a Mentrau Trydydd Sector:

- *Y swm a wariwyd gyda busnesau yng Nghymru a'r gororau sy'n darparu nwyddau, gwasanaethau neu orbenion*
- *Y swm a wariwyd gyda Busnesau Bach a Chanolig wedi'u lleoli yng Nghymru a'r gororau*
- *Y swm a wariwyd gyda Mentrau Trydydd Sector Enterprises (TSEs) wedi'u lleoli yng Nghymru a'r gororau yn ystod y cyfnod.*

Sgiliau, Grwpiau dan Anfantais:

- *Y swm a dalwyd i bobl sy'n byw yng Nghymru a'r gororau sydd/oedd yn gyflogedig o ganlyniad i'r contract yma*
- *A yw'r contract yma wedi caniatáu i'r Contractwr neu isgontractwyr i gadw staff a fyddai wedi colli eu swyddi oni bai am y gwaith a grëwyd trwy'r contract yma?*
- *Staff sy'n byw yng Nghymru a'r gororau a gyflogwyd o ganlyniad i'r contract yma*
- *Pobl sy'n byw yng Nghymru a'r gororau oedd gynt yn ddi-waith ond sydd bellach wedi'u cyflogi gan y Contractwr a/neu isgontractwyr yn ystod y cyfnod o ganlyniad i'r contract yma*

Hyfforddiant:

- *Prentisiaethau a gychwynnwyd gan bobl sy'n byw yng Nghymru a'r gororau fel rhan o'r contract yma*

- *Wythnosau prentisiaeth a gwblhawyd gan bobl sy'n byw yng Nghymru a'r gororau fel rhan o'r contract yma*
- *Hyfforddiaethau gan bobl sy'n byw yng Nghymru a'r gororau a gychwynnwyd ac a gwblhawyd fel rhan o'r contract yma*
- *Cyfleoedd profiad gwaith/interniaeth ar gyfer pobl sy'n byw yng Nghymru a'r gororau a gychwynnwyd ac a gwblhawyd*
- *Cyfanswm wythnosau profiad gwaith/interniaeth a gwblhawyd fel rhan o'r contract yma*
- *Lleoliadau graddedigion ar gyfer pobl sy'n byw yng Nghymru a'r gororau a gychwynnwyd ac a gwblhawyd fel rhan o'r contract yma*
- *Cyfanswm wythnosau lleoliadau graddedigion a gwblhawyd fel rhan o'r contract yma*
- *Cyfanswm wythnosau treial gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r contract yma*
- *Cyfleoedd gwaith gwirfoddol a gwblhawyd fel rhan o'r contract yma*
- *Wythnosau gwaith gwirfoddol a gwblhawyd fel rhan o'r contract yma*
- *Cyfleoedd hyfforddi achrededig ar unrhyw lefel a gwblhawyd fel rhan o'r contract yma*
- *Wythnosau hyfforddi achrededig ar unrhyw lefel a gwblhawyd fel rhan o'r contract yma*
- *Cyfleoedd hyfforddi heb eu hachredu a gwblhawyd fel rhan o'r contract yma*
- *Wythnosau hyfforddi heb eu hachredu a ddarparwyd fel rhan o'r contract yma*

Mae ein prif gontractau adeiladu yn cynnwys rhwymedigaethau ar gyfer y canlynol a gofyniad i adrodd yn eu cylch:

- *Cyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth, yn enwedig ar gyfer y rhai hynny sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad swyddi;*
- *Cyfleoedd cadwyn gyflenwi ar gyfer busnesau micro, busnesau bach a chanolig a sefydliadau trydydd sector;*
- *Gwelliannau i berfformiad amgylcheddol, gan gynnwys lleihau carbon, lleihau gwastraff, lleihau'r defnydd o ddŵr, gwelliannau mewn ansawdd aer ac ymagwedd gyfrifol at fioamrywiaeth; a*
- *Cyfraniadau i'r gymuned leol, fel gweithio gydag ysgolion a cholegau lleol, profiad gwaith/lleoliadau gwaith a hyrwyddo diwylliant a'r iaith Gymraeg.*
- *Cydweithio'n effeithiol gyda'r Cyflogwr a thrydydd partïon perthnasol i fynd i'r afael â bylchau sgiliau a phrinder sgiliau a nodwyd. Lle bo'n briodol, dylid gweithio gyda'r Cyflogwr i gefnogi cynlluniau Prentisiaeth a chynlluniau graddedigion y Cyflogwr.*

Gweithio gyda mentrau cymdeithasol:

Yn ddiweddar, mae TrC wedi dyfarnu contract i ELITE Paper Solutions, menter gymdeithasol sy'n helpu pobl ag anableddau i sicrhau cyflogaeth. Wedi'i lleoli ym Merthyr Tudful, penodwyd ELITE Paper Solutions i storio a chadw dogfennau a chontractau wedi'u harchifo ar ein rhan. Mae'r fenter gymdeithasol wedi bod yn cynorthwyo pobl ag anableddau i sicrhau a chynnal cyfleoedd gwaith cyflogedig yn eu cymunedau ers 1994.

Rydym hefyd wedi ymgysylltu â'r Ganolfan Hygyrchedd Digidol, menter gymdeithasol yng Nghastell-nedd sy'n gweithio gyda chleientiaid i greu cyfryngau digidol sydd ar gael i'r holl boblogaeth, ac sy'n bodloni safonau a deddfwriaeth ar arfer gorau a hygyrchedd. Penodwyd y Ganolfan Hygyrchedd Digidol i brofi'r broses ceisiadau ar-lein ar gyfer deiliaid cyfredol a newydd Cardiau Teithio Rhatach a Chardiau Teithio'r Anabl rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2019, yn unol â gofynion cydymffurfio Lefel A ac AA y Canllawiau ar Hygyrchedd y We (WCAG) 2.1 W3C.

Yn gywir

James Price